



yn rhoi
cartref i
fyd natur

Nodiadau cyflwyniad Bioblitz

Amcanion

- Cyflwyno'r syniad Bioblitz i'r plant ysgol; beth sy'n digwydd a pham ein bod yn awyddus iddyn nhw gynnal un.
- Paratoi'r disgyblion ar gyfer cydweithio mewn grwpiau er mwyn cynnal Bioblitz eu hunain ar dir yr ysgol.

Cynulleidfa: Plant 5–11 oed

Amser i'w gynnal Oddeutu 10 munud

Adnoddau

Cynrychioliadau gweledol a phwyntiau ysgogi yw'r sleidiau yn y cyflwyniad hwn i'ch helpu i gyflwyno cynnwys y nodiadau yma. Maen nhw'n clymu'r naratif at ei gilydd ac yn rhoi strwythur i'r cyflwyniad, wrth helpu i hwyluso trafodaeth a rhyngweithio gyda'r gynulleidfa.

Fformat

Mae'r cyflwyniad wedi ei arbed fel ffeil Microsoft Office PowerPoint.

Pwyntiau trafod a gwybodaeth bellach

Yn y nodiadau hyn mae rhywfaint o wybodaeth ychwanegol i'ch helpu gyda thrafodaeth bellach o'r pynciau dan sylw. Fe all yr unigolyn sy'n cyflwyno ddewis cyfeirio at y rhain yn ystod y cyflwyniad, os oes mwy o amser ar gael, neu eu hymgorffori mewn gwaith dilynol yn y dosbarth.



Sleid un

Gweithred: cliciwch ar sleid un.

Cyflwynydd: Heddiw rydym yn mynd i ddarganfod sut allwn ni ddysgu mwy am y bywyd gwyllt sy'n byw ar dir ein hysgol: o amgylch yr adeiladau, yn y cae chwarae, ar y maes chwaraeon ac yn y gwelyau blodau.

Gweithred: cliciwch ar y sleid eto fel bod lluniau o fywyd gwyllt yn ymddangos.

Cyflwynydd: Felly, ydych chi'n barod i gymryd rhan mewn Bioblitz? Ydych chi'n gwybod beth ydy hwnnw?

[Pwyntiwch at ran **Bio y gair**] Bio yw rhan gyntaf y gair Bioamrywiaeth, sy'n golygu'r amrywiaeth o wahanol fathau o bethau byw ar y ddaear. Felly'r holl creaduriaid sy'n bodoli yn y byd, yn cynnwys yr adar, y pryfed a'r planhigion ar y sleid yma.

[pwyntiwch at ran **blitz y gair**] Mae blitz yn golygu llawer o weithgaredd egniol mewn ychydig iawn o amser.

A gyda'i gilydd, mae **Bioblitz** yn golygu gweithgaredd llawn hwyl, lle mae llawer o bobl yn cydweithio, ac yn brysur yn ceisio darganfod cymaint o creaduriaid byw â phosib mewn un man, o fewn amser penodol.

Pwyntiau trafod a gwybodaeth bellach


- Efallai yr hoffech yn y fan hon rannu amcanion y cyflwyniad:
 - grymuso plant fel eu bod yn gwybod bod modd iddyn nhw'n bersonol gymryd rhan mewn darganfod bywyd gwyllt sy'n byw ar dir yr ysgol;
 - eu helpu i ddod yn dditectifs byd natur, ac i ddechrau chwilio o ddifrif a sylwi ar fyd natur. Fe fydden nhw'n canfod llawer o wybodaeth gyffrous am fywyd gwyllt yn y broses;
 - dangos iddyn nhw pa welliannau y gellir eu gwneud i dir yr ysgol, i roi cartref i fwy o fyd natur hyd yn oed!
- Cewch wybod mwy am y theori sy'n sail i Bioblitz ac am weithgareddau a digwyddiadau Bioblitz eraill sy'n digwydd ledled y wlad (a sut allwch chi gymryd rhan) o Gonsortium Byd Natur Bryste (Bristol Natural History Consortium). Ewch i www.bnhc.org.uk/bioblitz
- Cewch wybod mwy am ystod eang gwaith yr rspb.org.uk
- Cewch hyd i adnoddau a gweithgareddau i ysgolion ar rspb.org.uk/teaching



Sleid dau

Gweithred: cliciwch ar sleid dau.

Cyflwynydd: *I gynnal Bioblitz o dir ein hysgol, mae angen i ni gydweithio. Ac os ydyn ni am ddarganfod cymaint o fywyd gwylt â phosibl, mae angen i ni ddod yn dditectifs byd natur gwirioneddol dda. Ydych chi'n credu y gallwch chi wneud hyn?*



Sleid tri

Gweithred: cliciwch ar sleid tri.

Cyflwynydd: *Pan fyddwch chi'n mynd allan i chwilio am fywyd gwylt ar eich Bioblitz, mae'n help gwybod sut mae'r pethau yr ydych yn chwilio amdany'n nhw'n edrych. Beth am roi cynnig arni nawr? Beth allwch chi ei adnabod ar y sleid yma? Codwch eich dwylo.*

Gweithred: Pwyntiwch at wahanol luniau ar y sleid a gofynnwch i'r plant ddweud wrthy'ch chi beth ydyn nhw.

Atebion: pioden, blodau menyn, twmpathau twrch daear, dail derw gyda mes, gwas y neidr a buwch goch gota.

Pwyntiau trafod a gwybodaeth bellach

Fe allech yn y fan hon ddangos printiadau i'ch disgyblion o saith taflen *Chwiliwch* yr RSPB y gallan nhw eu defnyddio'n ystod eu Bioblitz, ac egluro y bydden nhw'n rhoi tic yn erbyn enw'r creaduriaid wrth iddyn nhw ddod o hyd iddyn nhw. **Gellir lawrlwytho'r holl daflenni Edrychwch o: rspb.org.uk/schoolsoutreach**



Sleid pedwar

Gweithred: cliciwch ar sleid pedwar

Cyflwynydd: *Wrth chwilio am fywyd gwyllt, mae ditectifs byd natur da'n chwilio ym mhob twll a chornel. Os yw'n ddiogel i chi wneud hyn, peidiwch â bod ofn codi carreg i weld beth sy'n byw oddi tani. Neu edrychwch o dan ddeilen ar blanhigyn i weld a oes rhywbeth yn cuddio oddi tani. Edrychwch i fyny hefyd. Efallai y bydd adar yn hedfan o wrych i goeden neu, yn yr haf, efallai y gwelwch loŷnnod byw neu wenyn yn symud o un blodyn i'r un nesaf. Po fwyaf y byddwch yn chwilio, y mwyaf y cewch hyd iddo!*

Pwyntiau trafod a gwybodaeth bellach

- **Cofiwch atgoffa disgyblion mor bwysig yw peidio â dychryn y bywyd gwyllt y maen nhw'n chwilio amdano.** Fe ddylen nhw fod mor ddistaw â phosib os oes bywyd gwyllt ac adar gerllaw (fe fydd ganddyn nhw well gobaith o weld mwy fel hyn hefyd!). Ac i fod yn ofalus iawn fel na fydden nhw'n niweidio'r bywyd gwyllt. Er enghraifft, os ydych chi'n codi carreg i weld y mân drychfilod oddi tani, cofiwch ei gosod yn ôl yn ofalus yn yr un man yn union er mwyn peidio â gwasgu dim byd oddi tani.



Sleid pump

Gweithred: cliciwch ar sleid pump.

Cyflwynydd: Nid yw ditectifs natur yn dibynnu ar eu llygaid a'r hyn maen nhw'n ei weld yn unig. I ddod o hyd i gymaint o fywyd gwyllt â phosib mae angen i chi ddefnyddio eich synhwyrau eraill hefyd. Wrth wneud eich Bioblitz, cofiwch aros yn llonydd a gwranddo'n astud. Os byddwch yn ddistaw, efallai y clywch adar yn canu ac, yn yr haf, pryfed yn sio. Mae hynny'n gadael i chi wybod bod bywyd gwyllt yno - ceisiwch ddilyn y sŵn i wybod pa greadur sy'n ei wneud.

Yn yr haf, arogleuwch flodau hefyd. Os oes ganddyn nhw arogl melys, nid chi fydd yr unig rai i arogleuo hynny. Mae'n golygu y bydd pryfed sy'n peillio fel cacwn a phryfed hofran o gwmpas hefyd, felly efallai y cewch gipolwg arnyh nhw wrth iddyn nhw symud o flodyn i flodyn, yn casglu neithdar.

Pwyntiau trafod a gwybodaeth ychwanegol

- Cewch wybod mwy am adar unigol a chlywed recordiau o'u caneuon ar wefan yr RSPB. Teipiwch gyfeiriad gwe'r RSPB i'ch bar chwilio ac yna ychwanegwch / ac enw'r aderyn sydd o ddiddordeb i chi. Er enghraifft, ar gyfer y fwyalchen ewch i [rspb.org.uk/blackbird](https://www.rspb.org.uk/blackbird)

I edrych drwy ein A-Y o adar, ewch i:

[rspb.org.uk/discoverandenjoynature/discoverandlearn/birdguide](https://www.rspb.org.uk/discoverandenjoynature/discoverandlearn/birdguide)

- Cewch wybod mwy am gacwn ar [bumblebeeconservation.org/get-involved/bumble-kids](https://www.bumblebeeconservation.org/get-involved/bumble-kids)



Sleid chwech

Gweithred: cliciwch ar sleid chwech.

Cyflwynydd: *Efallai na welwch unrhyw greadur yn ystod eich Bioblitz ond, fel ditectif natur, efallai y cewch hyd i gliwiau eu bod yno. Os welwch chi gneuen wedi ei chnoi neu gwpanau mes o dan goeden, efallai bod gwiwer wedi bod yn bwydo yno rhyw dro. Os welwch chi bentyrrau mawr o bridd ar y cae chwarae, twmpathau twrch daear yw'r rhain, sy'n golygu bod twrch daear bach yn tyllu o dan y ddaear. Lle saif y twmpath, yna dyma lle maen nhw wedi bod yn cloddio'n agos at yr wyneb.*

Os edrychwch yn ofalus iawn ar rannau mwdlyd y cae chwarae, neu mewn gwelyau blodau o amgylch yr ysgol, efallai y cewch hyd i ôltroed hefyd. Mae'n bosib bod y rhain wedi eu gwneud gan gwningod, adar neu hyd yn oed greadur y nos fel y llwynog.

Ac, er bod hyn yn swnio ychydig yn afiach, efallai y byddwch yn ddigon ffodus i ddod o hyd i faw draenog neu lwynog. Mae hyn yn golygu bod y creaduriaid y nos yma'n treulio amser ar dir ein hysgol pan fyddwn ni i gyd wedi mynd adref ac yn cysgu.

Hyd yn oed os nad ydych wedi gweld y creadur sy'n gadael y cliwiau yma ar ei ôl, mae'n bwysig ysgrifennu neu dynnu llun yr hyn welsoch chi – mae'n dystiolaeth dda eu bod efallai'n byw ar dir eich ysgol neu'n agos ato.

Pwyntiau trafod a gwybodaeth ychwanegol

- Efallai yr hoffech gymryd y cyfle hwn i siarad dipyn bach mwy am greaduriaid y nos.
- Cewch hyd i daflenni adnabod ôltraed anifeiliaid ar:
rspb.org.uk/Images/animaltracks_tcm9-133380.pdf



Sleid saith

Gweithred: cliciwch ar sleid saith

Cyflwynydd: Mae angen i dditectifs nodi unrhyw beth maen nhw'n ei weld, ac mae'r un peth yn wir am dditectifs natur. Yn ystod ein Bioblitz o dir yr ysgol, byddwch yn ticio'r holl fyd natur y byddwch yn ei weld, ei arogleuo a'i glywed oddi ar eich rhestr, fel ein bod ni'n gallu creu darlun o ba fywyd gwyllt sy'n byw yma. Efallai y byddwch yn gweld neu'n clywed rhywbeth na allwch ei adnabod. Os fyddwch chi, ysgrifennwch ddisgrifiad ohono neu tynnwch lun ohono, yn cynnwys pa liw ydy o a pha faint ydy o. Pan fydd ein Bioblitz ar ben, gallwn geisio dyfalu gyda'n gilydd beth oedd o.

Pwyntiau trafod a gwybodaeth ychwanegol

- Efallai yr hoffech egluro mwy yma ynglŷn â sut hoffech chi i'r plant gofnodi'r hyn a welir ganddyn nhw.
- Defnyddir saith taflen *Chwiliwch* fel rhan o'r sesiwn ymestyn allan. Gallwch lawrlwytho copïau ychwanegol o [rspb.org.uk/schoolsoutreach](https://www.rspb.org.uk/schoolsoutreach)

Ar y taflenni yma sy'n addas i blant fe welwch bob math o fywyd gwyllt y mae'n bosibl i chi ei weld yn ystod Bioblitz eich ysgol. Ar y taflenni *Chwiliwch* mae lle i'r disgyblion groesi'r hyn a welir oddi ar y daflen wrth iddyn nhw ddod o hyd iddyn nhw a thynnu llun unrhyw beth sy'n newydd iddyn nhw neu na allan nhw ei weld.



Sleid wyth

Gweithred: cliciwch ar sleid wyth.

Cyflwynydd: *Ym mhle yn ein hysgol ydych chi'n meddwl y cawn hyd i'r rhan fwyaf o fywyd gwyllt yn ystod ein Bioblitz? Cofiwch fod adar a bywyd gwyllt yn tueddu i wneud eu cartrefi mewn mannau diogel sydd â'r bwyd, y dŵr a'r lloches angenrheidiol. Dyma beth y maent eu hangen yn eu cynefin er mwyn goroesi.*

Cwestiynau i annog mwy o drafodaeth:

Ydych chi'n meddwl y gwelwn lawer ar y cae chwarae? Beth ydych chi'n ei feddwl sy'n byw yno?

Beth am y glaswellt a'r coed ar y cae chwarae?

Beth am o flaen yr ysgol?

Oes unrhyw le arall yn yr ysgol lle'r ydych chi'n credu y dylem chwilio am fyd natur yn ystod ein Bioblitz?

A oes mannau ar dir eich ysgol lle'r ydych yn credu y cewch hyd i fwy o fywyd gwyllt na mewn mannau eraill? Lle, a pham ydych chi'n meddwl y bydd mwy o fywyd gwyllt yno?



Sleid naw

Gweithred: cliciwch ar sleid naw.

Cyflwynydd: Pan fyddwn yn mynd allan i'r awyr agored i gynnal ein Bioblitz o dir yr ysgol, bydd rhaid i ni weithio'n dda gyda'n gilydd fel tîm. Fe fydd amser yn brin i archwilio tir ein hysgol a dod o hyd i gymaint o fywyd gwylt â phosibl!

Beth am ymarfer a gweld pa mor dda ydym ni i gyd am fod yn dditectifs natur?

Ar yr ychydig o sleidiau nesaf mae ambell i aderyn a bywyd gwylt yn cuddio. Dyma'r math o bethau y byddwn efallai'n ddigon ffodus i'w gweld yn ystod ein Bioblitz. Edrychwch a welwch chi pa fywyd gwylt sydd yn y llun cyn i chi weld y llun i gyd. Os ydych chi'n gwybod be' ydy o, codwch eich llaw.

Gwybodaeth am sleidiau 10–13

Mae bob un o'r pedwar sleid canlynol (10–13) yn dangos llun o greadur y mae'n bosibl ei weld yn ystod Bioblitz eich ysgol. Mae pob llun wedi ei rannol guddio gan flocliau lliw. Gyda phob clic llygoden, bydd un o'r sgwariau sy'n gorchuddio rhan o'r llun yn diflannu i ddangos mwy o'r llun, i helpu eich disgyblion ddyfalu be' ydyn nhw.

Gobeithiwn y bydd yr elfen hon o gwis yn annog y disgyblion i gymryd rhan, a rhoi cynnig ar ddyfalu beth fydden nhw'n ei weld – neu ddangos eu bod yn gwybod beth ydyn nhw.

Malwen



Sleid 10

Gweithred: cliciwch ar sleid 10. Yna cliciwch eto i ddadorchuddio'r llun fesul cam (gyda phob clic, bydd un o'r blociau lliw sy'n cuddio'r llun yn diflannu). Mae'r clic olaf yn datgelu enw'r creadur.

Cyflwynydd: Ydych chi'n gwybod beth yw'r creadur hwn?

Ateb: Malwen

Cyflwynydd: Ym mhle ydych chi'n meddwl y gwelwn un o'r rhain yn ystod Bioblitz ein hysgol?



Sleid 11

Gweithred: cliciwch ar sleid 11. Yna cliciwch eto i ddadorchuddio'r llun fesul cam (gyda phob clic, bydd un o'r blociau lliw sy'n cuddio'r llun yn diflannu). Mae'r clic olaf yn datgelu enw'r aderyn.

Cyflwynydd: Ydych chi'n gwybod beth yw'r creadur hwn?

Ateb: Drudwen

Cyflwynydd: Ym mhle ydych chi'n meddwl y gwelwn un o'r rhain yn ystod Bioblitz ein hysgol?



Sleid 12

Gweithred: cliciwch ar sleid 12. Yna cliciwch eto i ddadorchuddio'r llun fesul cam (gyda phob clic, bydd un o'r blociau lliw sy'n cuddio'r llun yn diflannu). Mae'r clic olaf yn datgelu'r enw.

Cyflwynydd: Ydych chi'n gwybod beth yw hwn?

Ateb: Twmpath twrch daear.

Cyflwynydd: Ydych chi'n gwybod pa greadur fyddai wedi gwneud hwn? Ym mhle ydych chi'n meddwl y gwelwn un o'r rhain yn ystod Bioblitz ein hysgol?



Sleid 13

Gweithred: cliciwch ar sleid 13. Yna cliciwch eto i ddadorchuddio'r llun fesul cam (gyda phob clic, bydd un o'r blociau lliw sy'n cuddio'r llun yn diflannu). Mae'r clic olaf yn datgelu enw'r creadur.

Cyflwynydd: Ydych chi'n gwybod beth yw'r creadur hwn?

Ateb: Pryf copyn yr ardd.

Cyflwynydd: Ydych chi'n gwybod beth yw enw ei gartref? Ym mhle ydych chi'n meddwl y gwelwn un o'r rhain yn ystod Bioblitz ein hysgol?



Sleid 14

Gweithred: cliciwch ar sleid 14 i orffen.

Cyflwynydd: Gwaith da bawb. Rydw i'n meddwl eich bod yn dditectifs byd natur gwych, a bydd hyn yn ddefnyddiol iawn ar gyfer ein Bioblitz.

Wrth i ni archwilio tir yr ysgol i chwilio am fywyd gwyllt, efallai y gwelwn fannau lle gallwn wella tir ein hysgol ar gyfer bywyd gwyllt hefyd – lle gallwn osod blychau nythu a bwydwyr adar, neu adeiladu gwesty i fân drychfilod. Os wnawn ni hyn, byddwn yn helpu i roi cartref i fwy fyth o fyd natur.

Felly, ydych chi'n barod i gychwyn?

Diwedd y cyflwyniad

Ffotograffau'r sleidiau: plant yn edrych ar drychfilod, pioden, a thaflen Chwiliwch gan yr RSPB. Plant yn edrych drwy chwyddwydr, blodau menyn gan Ben Hall, twmpathau twrch daear gan Nick Upton, mes gan Chris O'Reilly, gwas neidr gan Mike Lane, buwch goch gota gan David Norton, cregyn cnau cyll gan Niall Benvie, malwen gan Ray Kennedy, drudwen gan David Norton, pryf copyn yr ardd gan Jodie Randall a plant yn gweithio mewn tîm (rspb-images.com i gyd). Mochyn coed, glöyn byw, buwch goch gota, robin goch a malwen ar ffens, merch yn arogleuo blodau, arwydd ysgol, thwmpath twrch daear gan iStockphoto.com. Malwen, mwyalchen, cacynen a llyffant dafadennog gan Fotolia.com. Robin goch gan Alamy.



yn rhoi
cartref i
fyd natur

Gwybodaeth ychwanegol i athrawon, adnoddau a gweithgareddau dilynol:

- Cofiwch dynnu lluniau ar eich Bioblitz, ysgrifennwch beth ddigwyddodd, ac un ai ein e-bostio ar education@rspb.org.uk neu anfonwch neges drydar ar: [@RSPB_Learning](https://twitter.com/RSPB_Learning) neu [@RSPBCymru](https://twitter.com/RSPBCymru)
- Efallai yr hoffech hefyd barhau â'ch Bioblitz a gwneud rhywfaint o waith ymarferol gyda'ch disgyblion i roi cartref i fyd natur ar dir eich ysgol. Ewch i rspb.org.uk/teaching am lawer o syniadau ar gyfer gweithgareddau.
- Mae cymryd rhan yn **Sialens Wylt yr RSPB** yn golygu y gallwch chi wneud llawer o weithgareddau cyffrous eraill a dysgu am fywyd gwylt a'i helpu. Wrth i chi groesi gwahanol weithgareddau oddi ar eich rhestr, gallwch weithio tuag at dderbyn tystysgrif gwobr efydd, arian ac aur a sticeri difyr. Cewch wybod mwy am **Sialens Wylt yr RSPB** yn rspb.org.uk/schoolswildchallenge